

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Mon Awel, Lon Ysgubor Wen, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1HS.

Ffon: 01286 676462 e-bost: ajohnson200@btinternet.com

Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni, Nos Fawrth y 12ed o Orffennaf 2016.

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair); Nerys Williams, Justin Davies - Penygroes; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, OP Huws - Llanllyfni; Sharon Wynne Jones, Harry Wyn Owen - Talysarn / **Ymddiheuriadau:** Ffion Jones - Nantlle; Dyfed Edwards (Cynghorydd Sir), Mark Balaam - Penygroes. Gwyndaf wedi ymddiheuro y byddai'n cyrraedd yn hwyr.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan buddiant personol.
- 3. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Mehefin.** Hefina Roberts yn datgan cywirdeb, Harry Wyn Owen yn eilio.
- 4. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Gwair cae chwarae cwrtin yn uchel eto; Cyngor Gwynedd wedi nodi cais torri gwair ffordd Hyfrydle; Cysylltu i ddiolch wrth Cyngor Gwynedd am dorri llwybr y Trim Trac, ond yn anffodus, ble mae'r llwybr yn mynd yn gul, mae difrod wedi ei greu i wyneb y llwybr a'i chulhau hyd yn oed yn fwy - awgrymu bod yn well strimio yn y fan hon yn hytrach na defnyddio tractor - llawer wedi cwyno; R Williams Parry - Angharad Tomos am geisio hel pobl at ei gilydd; Llwybr Tyddyn Agnes - giat dros y llwybr efo clo arni eto - rhwystr ambiwlans ac yn y blaen. Holi beth yw'r diffiniad cyfreithiol mae'r Cyngor Sir yn ei roi arni.
- 5. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio** - Adrodd yn ol i'r Cyngor. Cais am arian yn sgil y ffordd osgoi - angen meddwl am brosiectau. Crybwyllwyd prosiect Trem yr Wyddfa, ac efallai gwneud cais tuag at hwnnw; Y Cyngor ddim yn awyddus rhannu cytundebau torri gwair mynwentydd a llwybrau - yn hytrach canolbwyntio ar syniadau creu incwm.
- 6. Cynllunio** C16/0671/22/LL Fferm Gwynfaes, Llanllyfn – codi sied amaethyddol ar gyfer cadw peiriannau, porthiant a chysgodfan I ddefaid - caniatâu; C16/0521/2/LL 17 Ffordd Nantlle, Talysarn – cais ol weithredol I gadw estyniad unllawr cefn - caniatâu; C16/0574/22/YM – Graianfryn Nasareth – trosi adeilad I lety - caniatâu.
- 7. Sedd Wag Nasareth** Hawl I'r Cyngor Cymuned gyfethol. Rhoddwyd enw ger bron y pwyllgor, a chyfetholwyd Dafydd Thomas, Bwlch Gwyn, Nasareth i gynrychioli Nebo/Nasareth ar y Cyngor Cymuned - pawb yn cytuno. (Craig yn cyrraedd y cyfarfod)

8. Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd

*Ymatebion – 17 Ffordd Nantlle. Derbyniwyd ymateb i'r ebost, ond dim manylion am Bryn Teg, Nasareth (Gwyndaf yn cyrraedd y cyfarfod) - gofynwyd i Craig gysylltu efo'r prif swyddog cynllunio i holi (Justin yn cyrraedd y cyfarfod); mapiau llwybrau - penderfynwyd peidio a gofyn wrth Gyngor Gwynedd am gopiau ychwanegol gan fod y gost yn rhy uchel. Gwahodd swyddog llwybrau i gyfarfod y Cyngor fis Medi; Llwybr Hyfrydle - y gwyn wedi ei nodi gan Gyngor Gwynedd am y tyfiant gwair; Cwtin - dau dorriad wedi ei gwblhau.

*Canllaw Cynllunio Atodol – Cynllunio A'r Iaith Gymraeg – Cyfle I ddylwanadu ar gynnwys y canllaw cynllunio atodol newydd. Gofyn i Gyngor Gwynedd anfon asesiad annibynnol i'r archwilydd yn enw Cyngor Gwynedd (sef yr asesiad a anfonwyd copi ohono i'r Cyngor Cymuned (gweler isod)).

*Biniau halen. Biniau yn ddigon llawn am eleni. Arolwg wedi amlygu fod nifer o'r biniau halen wedi malu yn barod. Gadael i'r Cyngor wybod mis Hydref nad yw'r Cyngor Cymuned yn cytuno i gymryd cyfrifoldeb am y biniau.

*Toiledau Cyhoeddus. Poveys yn awyddus i drafod cynllun amgen . Y Cyngor Cymuned yn gefnogol o gais amgen. Gwrthod cais Cyngor Gwynedd am gyfraniad ariannol i fynd tuag at y toiledau cyhoeddus - dim adnoddau i ddarparu'r gwasanaeth yma.

*Gwasanaeth Llyfrgell. Gwasanaeth hanfodol yn y dyffryn. Wedi trafodaeth, penderfynwyd cynnig cyfrannu £1236 i Gyngor Gwynedd er mwyn cadw oriau agor y llyfrgell yn 17 awr yr wythnos. Dim cyfrannu tuag at gostau rhent.

*Ebost gan Dyfed Edwards - 'Galwad Agored' - gweithio gyda Arloesi Gwynedd er mwyn dysgu am fodelau gwahanol o drosglwyddo gwasanaethau - Arloesi wedi eu gwahodd ac yn mynychu cyfarfod 'Cydweithio Cynghorau Cymuned' wythnos nesaf.

Aral

*Clerks and Councils Direct. Er gwybodaeth.

*Llythyr gan grwp o bobl yn rhoi asesiad annibynnol ar effaith ieithyddol Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Mon. Cefnogi.

*Llythyr gan Glwb Moduro Mon ac Arfon. Darllenwyd y llythyr. Cyfeiriwyd at gofnod materion pentrefi yn Lleu yn adrodd am sgrin car a oedd wedi ei adael ar ochr y ffordd yn Nebo. Nid oedd rali y JJ Brown yn yr ardal ar yr adeg y digwyddodd hyn. Ymddiheuriad yn Lleu.

*Adroddiad Blynyddol Ombwdsman 2015-16. Er gwybodaeth.

*Dogfennau gan Breese Gwyndaf. Cytundeb ystafelloedd newid Talysarn, a chytundeb pori cae ger MacPelah. I'w gyrru i'r Cynghorwyr i gael golwg arnynt.

*Twf Gwyrdd Cymru – galwad am brosiectau ar gyfer 2016-17. Gofyn am fwy o wybodaeth erbyn cyfarfod Hydref.

*Craig ab Iago – wal Ffordd Rhedyw. Cyngor Gwynedd wedi ymateb nad oes modd gwneud dim i'w gwella.

*Craig ab Iago – hawl tramwy Nantlle. Er gwybodaeth, y mater yn nwylo Cyngor Gwynedd.

*Craig ab Iago – pryderon Llanllyfni. Pryder am gyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gofynwyd I'r Cynghorwyr fonitro.

*Model Rheoliadau Ariannol ar ffurf Unllais. Y Cyngor yn derbyn mabwysiadu'r rheoliadau ar y ffurff hwn.

*Pwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu – recriwtio aelodau ychwanegol. Er gwybodaeth.

*Agoriad Swyddogol Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu – gwahoddiad.

9. Materion Pentrefi.

Talysarn cais i dorri gwair o gwmpas y llyn; draen angen sylw ar Bont Coed Madog (y bont rhwng Talysarn a Bro Silyn); Twll yn y lon dros y ffordd I Tyrpeg Penygroes – gall achosi perygl damwain i feicwyr.

Llanllyfni Lon Ddwr, Lon Talgarnedd angen torri gwair.

Penygroes Angen cysylltu efo Ysgol Dyffryn Nantlle unwaith eto i ofyn wrthynt ail-ystyried gwneud newidiadau I'r ffens sydd wedi ei chodi o amgylch tir yr ysgol. Dau blentyn wedi eu taro o ganlyniad i orfod croesi'r ffordd i lawr o o Llwyn y Fuches at yr hen orsaf heddlu. Gwir angen cael y llwybr saff a oedd yn bodoli i'r ysgol a o Llwyn y Fuches yn ei hol. Ambiwlans wedi mynychu un digwyddiad.

10. Llwybrau a Mynwentydd. Llythyr parthed bedd yn MacPelah. Ateb drwy ddweud nad oes unrhyw beth i'w gadael ar feddi mewn mynwentydd lawnt, gan fod y gwaith torri yn cael ei wneud gan contractwyr. Rhybudd yn y papur newydd i atgoffa pawb o'r rheol nad oes ornament, cerrig man ac ati i'w rhoi ar feddi. Harri yn adrodd yn ol fod y weiran bigog wedi ei thynnu o MacPelah, hefyd fod y coed celyn wedi eu clirio, a bod cwningod yn tyllu yn MacPelah.

Is-bwyllgor mynwentydd – angen edrych ar sut i fynd o gwmpas edrych ar ddiogelwch cerrig beddi.

11. Materion yn ymwedd a'r heddlu.

12. **Materion ariannol.** Ffon/Rhyngwyrdd Clerc £25; Derbynebaw Clerc; Neuadd Goffa Penygroes £77; Lleu £15 (hysbyseb rhoi nawdd ariannol). Derbyn.

13. **Cyfrifon y Cyngor.** Cymeradwywyd y cyfrifon, a llofnodwyd y datganiadau ac ardystiwyd y dogfennau tystiolaeth a oedd i'w gyrru i'r archwilydd allanol. Archwilydd mewnol wedi ardystio'r cyfrifon.

14. **Ceisiadau am arian.** Shelter Cymru. I'w trafod fis Chwefror.

15. ***Taenlen i'w chymeradwyo** - cymeradwywyd. **Ffurflen fonitro cyllid** – cadarnhawyd.